



Theatr Genedlaethol Cymru

Safonau'r Iaith Gymraeg - Adroddiad Blynyddol 2023-24

Theatr Genedlaethol Cymru yw'r cwmni theatr cenedlaethol iaith Gymraeg. Mae'r iaith Gymraeg yn ganolog i'r holl rydym yn ei wneud fel cwmni, a hybu a datblygu'r celfyddydau trwy gyfrwng y Gymraeg yw'n prif hamcan fel elusen.

Mae'r cwmni yn gweithredu yn fewnol trwy gyfrwng y Gymraeg ac mae holl gyflogeion y cwmni yn rhugl yn y Gymraeg.

Rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, parhaodd Theatr Genedlaethol Cymru i gynnal y 168 Safon sydd yn berthnasol i'w gweithrediad a'i gwasanaeth. Mae'r cwmni yn gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â chyflawni'r gweithgaredd canlynol yn benodol:

Personél

Cymraeg yw prif iaith y cwmni, a'r iaith weithredol yn fewnol, ac felly mae pob aelod o'r staff craidd yn siarad ac yn ysgrifennu Cymraeg yn rhugl. Fe wnaeth y cwmni gyflogi 18 aelod o staff ar wahanol adegau yn ystod 2023/24 ond ar gyfartaledd roedd 14 aelod o staff.

Hysbysebwyd pedair swydd cyflogedig yn ystod y cyfnod hwn a phob un ohonynt yn gofyn am sgiliau Cymraeg lefel uchel, ar lafar ac yn ysgrifenedig.

Cyflogwyd 200 o weithwyr llawrydd yn ystod y cyfnod, yn cynnwys amrywiaeth o ddisgyblaethau, o artistiaid i rheolwyr llwyfan, o actorion i ddylunwyr, a mwy. O'r 200, roedd 144 yn nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg ac 24 yn nodi eu bod yn dysgu Cymraeg, sy'n gyfanswm o 168.

Mae Theatr Genedlaethol Cymru yn parhau i gydweithio gyda Cyngor Celfyddydau Cymru i annog gweithwyr llawrydd i fanteisio ar gyrsiau dysgu Cymraeg a chynnig cyfleoedd gwaith fel dilyniant i'r rhai sy'n mynychu'r cyrsiau.

Mae holl ymddiriedolwyr Theatr Genedlaethol Cymru yn siaradwyr Cymraeg rhugl.

Hyfforddiant

- Cynigiwyd cyrsiau gloywi iaith i aelodau staff sy'n dymuno cefnogaeth ychwanegol.
- Ni wnaeth unrhyw aelod o staff fanteisio ar y cynnig hwn yn ystod 2023/24.

Gweinyddiaeth

- Mae holl bolisiau, ffurflenni a chanllawiau Theatr Genedlaethol Cymru, gan gynnwys y Llawlyfr Staff, ar gael yn y Gymraeg
- Mae pob arwydd cyhoeddus ar gyfer cynrychiadau Theatr Genedlaethol Cymru yn ddwyieithog
- Cyhoeddir y Cyfrifon Statudol blynyddol yn y Gymraeg a'u darparu i'r cyhoedd drwy wefan y Comisiwn Elusennau a Thŷ'r Cwmnïau.

Cyfathrebu

- Caiff holl waith cyfathrebu y cwmni (gan gynnwys taflenni hyrwyddo, rhaglenni sioeau, posterï ac e-byst) ei ddarparu yn Gymraeg yn gyntaf, a'r Saesneg yn ail.
- Mae gwefan Theatr Genedlaethol Cymru yn hollol ddwyieithog.
- Caiff negeseuon eu rhannu ar gyfryngau cymdeithasol y cwmni (sef Facebook, Twitter ac Instagram) yn Gymraeg yn gyntaf, a'r Saesneg yn ail.
- Mae capsiynau dwyieithog (gyda'r Gymraeg yn gyntaf a'r Saesneg yn dilyn) ar gael ar bob fideo hyrwyddo gan y cwmni.
- Anfonir datganiadau i'r wasg yn y Gymraeg yn gyntaf, wedi eu dilyn gan y Saesneg.
- Mae Theatr Genedlaethol Cymru yn defnyddio gwasanaethau cyfieithwyr a phrawf-ddarllenwyr Cymraeg llawrydd yn gyson i sicrhau cywirdeb a safon yn ein gwaith cyfathrebu.

Cwynion/Ymholiadau

- Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion ynglŷn â chyflenwad Safonau'r Iaith Gymraeg
- Mae Theatr Genedlaethol Cymru yn croesawu adborth ac ymholiadau ynglŷn â'r iaith Gymraeg.